Cofnodion Cyfarfod Statudol Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe nos Fercher, Mai 29ain, 2019 am 6.30 yh

Presennol

Cynghorwyr	I. Rh. Llewelyn	Mrs C. Thomas	P.H. Roberts
	Mrs S.E Thomas	W. D. Evans	R.A. Davies
	Mrs K.D. L Davies	Mrs Ll. Latham	D. Hopkins
	D. Nicholas	A. W. Jones	N. Evans

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	E. W. Nicholas	Mrs Ll. Hindley	Mrs A. Evans
	B. Rees	C.J. Harris	Mrs J.E Collins

523.

Croeso Agoriadol

Croesawodd y Cynghorydd Mrs K.D.L Davies (Cadeirydd y Cyngor a oedd yn ymadael) yr Aelodau i'r cyfarfod a dywedodd ei bod wedi mwynhau ei blwyddyn yn Cadeirio'r Cyngor er bod y flwyddyn wedi bod, ar lefel bersonol, yn flwyddyn hynod anodd iddi. Roedd am ddymuno'n dda i'r Cadeirydd newydd wrth iddo ymgymryd â'r swydd am y flwyddyn sydd i ddod. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith ardderchog a wnaethpwyd gan y Cyngor yn ystod ei blwyddyn yn y swydd a diolchodd i'w chyd-Gynghorwyr am eu cefnogaeth, ac i'r Clerc am barhau i ymgymryd â'i ddyletswyddau gweinyddol mewn ffordd gwbl broffesiynol.

524.

Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd R. A Davies i'r Gadair, gyda'r Cynghorydd I. Rh. Llewelyn yn Is-Gadeirydd. Yna, fe wnaeth y ddau dyngu llwon eu Swyddi. Camodd y Cynghorydd Mrs K.D.L Davies i'r neilltu a chymerodd y Cadeirydd newydd, y Cynghorydd R.A. Davies, drosodd fel Cadeirydd y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Mrs K.D.L. Davies am ei gwaith yn ystod y flwyddyn, ac roedd yn yn gobeithio y gallai barhau i wneud gwaith ei ragflaenydd.

525.

Penodi Pwyllgorau

Cadarnhawyd bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn aelodau o holl bwyllgorau'r Cyngor, fel y penderfynwyd cyn hynny.

Penderfynwyd ethol y Cynghorwyr isod i wasanaethu ar y Pwyllgorau canlynol**:**

Pwyllgor Cyllid

Llandybïe: W.D. Evans a D. Hopkins
Saron: Mrs C Thomas a Mrs K.D.L. Davies

_____

Cadeirydd

Penygroes: Mrs J.E. Collins a Mrs Ll. Latham
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Cynllunio

Llandybïe: W. D. Evans ac E. W. Nicholas
Saron: C.J. Harris a N. Evans
Penygroes: Mrs J.E. Collins a P.H. Roberts
Heolddu: Gan fod y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn yn gyflogedig gan Adran Gynllunio'r Cyngor Sir, **penderfynwyd** cyfethol y Cynghorydd D. Nicholas i'r pwyllgor.

Pwyllgor Hawliau Tramwy

Llandybïe: B. Rees ac E.W. Nicholas
Saron: Mrs C Thomas a Mrs A. Evans
Penygroes: Mrs Ll. Hindley a P.H. Roberts
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Datblygu Cymunedol

Llandybïe: B. Rees a D. Hopkins
Saron: Mrs C. Thomas a N. Evans
Penygroes: Mrs S. E. Thomas a P.H. Roberts
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Polisi

Llandybïe: D. Hopkins
Saron: C. Harris
Penygroes: P. H. Roberts
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor i godi proffil y Cyngor

Llandybïe: D. Nicholas ac A. W. Jones
Saron: Mrs C. Thomas a N. Evans
Penygroes: Mrs Ll. Hindley a Mrs. Ll. Latham
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

_____

Cadeirydd

Pwyllgor Cyflogaeth

Llandybïe: D. Nicholas a W. D. Evans
Saron: C.J. Harris a N. Evans
Penygroes: P. H. Roberts a Mrs S.E. Thomas
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Gweithgor Gilfach Iago

P.H. Roberts
Mrs S.E. Thomas
N. Evans
C.J. Harris
I.Rh. Llewelyn

Parciau ac Ardaloedd Chwarae

Penderfynwyd cynyddu aelodaeth y pwyllgor hwn i 7 cynghorydd.

Llandybïe : E. W. Nicholas a W.D. Evans
Saron: N. Evans a Mrs A. Evans
Heolddu: I.Rh. Llewelyn
Penygroes: P.H Roberts a Mrs S.E. Thomas

Penderfynwyd y dylai'r pwyllgor polisi adolygu Cylch Gorchwyl pob pwyllgor, a bod ei argymhellion yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

526.

Cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol

Penderfynwyd bod yr Aelodau canlynol yn cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

Grŵp yr Aman o Gynghorau: Mrs. K. Davies a N. Evans

Grŵp y Gwendraeth o Gynghorau Lleol: Mrs J. Collins a Mrs Ll. Hindley

Un Llais Cymru, Sir Gaerfyrddin: R.A Davies ac I. Rh. Llewelyn
Un Llais Cymru, Pwyllgor y Cynghorau Mwy o Faint: N. Evans, gydag I. Rh. Llewelyn fel cynrychiolydd wrth gefn

Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Canolbarth Cymru: D. Hopkins

_____

Cadeirydd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Mrs J. Collins

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Saron: N. Evans

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Penygroes: Mrs Ll. Hindley

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Blaenau: P. H. Roberts

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llandybïe: D. W. Hopkins

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Parcyrhun: N. Evans

Penderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Age Concern Wales, Dinefwr Homestart, Menter Cwm Gwendraeth, a Menter Bro Dinefwr i ofyn os oedd angen cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned yn eu cyfarfodydd.

527.

Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a'r Cyfarfod Statudol ar gyfer 2019/20

Penderfynodd yr Aelodau y byddai'r cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal ar nos Fercher olaf pob mis heblaw am Awst a Rhagfyr pan na chynhelir cyfarfodydd. Hefyd **penderfynwyd** cynnal cyfarfodydd ychwanegol yn Ionawr a Medi ar y nos Fercher gyntaf o'r mis, ond bod y Cadeirydd a'r Clerc yn defnyddio'u disgresiwn i benderfynu os oedd gwir angen galw cyfarfod. .
Cynhelir y cyfarfod Statudol yn union cyn y Cyfarfod Cyffredin ym mis Mai 2020.

528.

Llofnodwyr

Penderfynwyd bod y Cynghorwyr Mrs J. E. Collins, Mrs Ll. Hindley a R. A. Davies ynghyd â'r Clerc yn parhau i fod yn llofnodwyr ar gyfer cyfrifon banc a chynilion y Cyngor Cymuned. Cadarnhawyd y byddai angen llofnod y Clerc ynghyd â llofnod unrhyw ddau o'r Cynghorwyr a enwyd uchod ar gyfer pob gweithrediad

529.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 6.45 yh.

_____

Cadeirydd